Great Eggcase Hunt

# PROSIECT SIARC Crynodeb

Tachwedd 2021 - Mawrth 2023

SIARC

## AMDANOM NI

Mae ymgyrch Great Eggcase Hunt y Shark Trust wedi bod yn ennyn diddordeb aelodau o'r cyhoedd mewn cadwraeth siarcod ers 2003. Trwy gofnodi casys wyau siarcod a morgathod (a elwir hefyd yn byrsiau môr-forwyn) sy'n golchi i'r lan ar y traeth, neu'r rhai a welir yn datblygu o dan y dŵr, gallwn gael gwell dealltwriaeth o bresenoldeb ac amrywiaeth rhywogaethau ofiparol (sy'n dodwy wyau) yn nyfroedd Prydain.

Mae Prosiect SIARC (*Sharks Inspiring Action and Research with Communities*) yn brosiect amlddisgyblaethol sy'n gweithredu ledled Cymru, gyda phwyslais ar ymgysylltu cymunedol ac ymchwil mewn dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Ers i Brosiect SIARC gael ei lansio ym mis Tachwedd 2021, mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi cynnal cyfres o helfa casys wyau mewn cydweithrediad â'r Shark Trust. Hyd yn hyn, mae'r helfeydd casys wyau hyn wedi'u cynnal yn bennaf o fewn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ac ar draws gogledd Cymru. Yn ogystal ag ymuno â digwyddiad sydd wedi'i drefnu, rydym yn annog cymunedau arfordirol i gynnal helfeydd wyau hunan-dywys a chofnodi unrhyw ganfyddiadau (gyda lluniau!) i'r Great Eggcase Hunt gan ddefnyddio naill ai'r Hyb Recordio ar-lein (ar gael yn Gymraeg neu Saesneg) neu drwy ap gwyddoniaeth dinasyddion y Shark Trust.

ap

Ffurflen Gofnodi

**Dyma beth rydych wedi'i ddarganfod ers i Brosiect SIARC ddechrau...**


## CAM UN

Casglwyd y casys wyau o Ionawr 2022 - Mawrth 2023

Cyfanswm yr **HELFEYDD CASYS WYAU** **102**

Cyfanswm y **COFNODWYR** **66**

Cyfanswm y **CASYS WYAU A GOFNODWYD: 7,003**




**347 CYFRANOGWR** mewn digwyddiadau rhwng Tachwedd a Medi

**25 HYRWYDDWR CASYS WYAU** hyfforddwyd i gynnal digwyddiadau GEH



Casys wyau'r Forgath Styds (*Raja clavata*) a ddarganfuwyd yn Ninas Dinlle gan Charles a Clare Welsh



Casys wyau'r Morgi Lleiaf (*Scyliorhinus canicula*) a ddarganfuwyd yng Nghonwy gan Charles a Clare Welsh




Cas wyau'r Forgath Lygadog (*Leucoraja naevus*) a ddarganfuwyd ym Mhorth Trecastell gan Sue Timperley

WWW.EGGCASE.ORG


Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru / In Partnership with Welsh Government
Gwneud yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth / Made possible with Heritage Fund
ON THE EDGE
SHARK TRUST
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
ZSL Zoological Society of London

# Y 5 COFNODWR GORAU

**5 Uchaf**

Cyflwynodd y 5 cofnodwr gorau ar gyfer cam 1 Prosiect SIARC (Ionawr 2021 - Mawrth 2023) gyfanswm anhygoel o **5,752** o gasys wyau!

Y cofnodwr gorau* ar gyfer Prosiect SIARC yn 2022 oedd:

*sylwch fod llawer o'r rhain wedi'u cyflwyno ar ran grwpiau mwy o bobl yn ystod digwyddiadau.


1. Reece Halstead - **2,008**
2. Elaine Blanchard - **1,842**
3. Charles a Clare Walsh - **1,079**
4. Dawn Thomas - **823**
5. (cydradd 5ed) Julie Rose a Sue Timperley - **204** (yr un)



571 o gasys wyau'r Morgi Brych (*Scyliorhinus stellaris*) a ddarganfuwyd yn Ninas Dinlle gan Reece Halstead

# LLEOLIADAU CASYS WYAU

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae 7,003 o gasys wyau wedi'u cofnodi drwy Brosiect SIARC o 43 lleoliad, yn bennaf yng ngogledd Cymru gyda rhai cyflwyniadau o'r canolbarth:






Helwyr casys wyau yn un o ddigwyddiadau Prosiect SIARC ym Mhwllheli ym mis Gorffennaf 2022




Helwyr casys wyau ar ddiwrnod hyfforddi Prosiect SIARC


# DARGANFYDDIADAU ANARFEROL

Ym mis Chwefror 2022, derbyniodd Ymddiriedolaeth y Siarcod gyflwyniad cyffrous, sef cas wyau'r Forgath Drwynfain (*Dipturus intermedius*) a ddarganfuwyd ar Draeth y De, Aberystwyth. Mae'r rhywogaeth hon i'w chael fel arfer yn yr Alban ac Ynysoedd y Gogledd, a dyma'r achos cyntaf wedi'i ddilysu o gas wyau'r Forgath Drwynfain gan y Great Eggcase Hunt yng Nghymru!

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ym mis Rhagfyr 2022, hysbyswyd y Shark Trust am gas wyau'r Forgath Las (*Dipturus batis*), a ddarganfuwyd hefyd ar Draeth y De, Aberystwyth! Dim ond 13 o gasys wyau'r Forgath Las wedi'u dilysu rydym wedi'u hadrodd i'r Great Eggcase Hunt fel darganfyddiadau traeth ers i'r prosiect ddechrau 20 mlynedd yn ôl, ac mae tri o'r rheini wedi dod o dde Cymru (Penrhyn Gŵyr a Sir Benfro). Er na chyflwynwyd yr un o'r canfyddiadau hyn fel rhan o Brosiect SIARC, maen nhw'n dal yn destun cyffro mawr!



Er mai rhywogaethau ffocws Prosiect SIARC hyd yma yw'r Maelgi (*Squatina squatina*), y Ci Glas (*Galeorhinus galeus*), y Ci Pigog (*Squalus acanthias*), a'r Forgath Ddu (*Dasyatis pastinaca*), rydym yn bwriadu ychwanegu'r Forgath Drwynfain a'r Forgath Las fel rhywogaethau ffocws yn ein gwaith yn y dyfodol! Rheswm ychwanegol i gadw llygad am gasys wyau'r ddwy rywogaeth yma sydd mewn Perygl Difrifol.



Cas wyau'r Forgath Drwynfain (*Dipturus intermedius*) a ddarganfuwyd gan Hannah Crute yn Aberystwyth



Cas wyau'r Forgath Las (*Dipturus batis*) a ddarganfuwyd gan Louise Rogers yn Aberystwyth

**WWW.EGGCASE.ORG**


Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru / In Partnership with Welsh Government
Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth / Made possible with Heritage Fund
ON THE EDGE
SHARK TRUST
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
ZSL Zoological Society of London